

Dyddiad / Date 28 Ebrill 2021
Gofynnwch am / Ask for M Curtis
Rhif ffôn / Telephone 01446 709828
Ffacs / Fax
e-bost / e-mail 21stcenturyschools@valeofglamorgan.gov.uk
Eich Cyf / Your Ref
Fy Nghyf / My Ref 21C/YYD2

Cyngor Bro Morgannwg
Dysgu a Sgiliau
Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, Y Barri, CF63
4RU
Ffôn: (01446) 700111 www.bromorgannwg.gov.uk

The Vale of Glamorgan Council
Learning and Skills
Civic Offices, Holton Road, Barry, CF63 4RU
Phone: (01446) 700111
www.valeofglamorgan.gov.uk



At: Rieni, Gofalwyr a Gwarcheidwaid plant sy'n mynychu Ysgol y Deri; Pennaeth, Staff a Chorff Llywodraethu Ysgol y Deri; Ymgynghoriad penodedig

Annwyl Ymgynghorai,

Cynnig i drawsnewid addysg arbenigol drwy:

- gynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol y Deri i addysgu 150 o ddisgyblion ychwanegol; a
- chodi adeilad newydd ar y safle a ffeirir yn Cosmeston, Penarth ar gyfer mis Medi 2023 a fyddai'n gweithredu fel safle ychwanegol o dan reolaeth Ysgol y Deri.

Bu'r Cyngor yn ymgynghori ag ymgynghoriad penodedig yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 ar y cynnig.

Yn unol â gofynion Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018, cynhaliwyd ymgynghoriad ag ymgynghoriad penodedig rhwng 6 Tachwedd 2020 a 20 Rhagfyr 2020. Nod yr ymgynghoriad oedd rhoi gwybod i ymgynghoriad rhagnodedig y am y cynnig ac i Gabinet y Cyngor glywed barn y rheiny oedd â diddordeb ynddo fel y gellid eu hystyried cyn bwrw ati i wneud penderfyniadau.

Yn ystod yr ymarfer ymgynghori, derbyniwyd 102 o ymatebion unigol erbyn dyddiad cau'r ymgynghoriad, sef 20 Rhagfyr 2020. Gofynnwyd i'r ymgynghoriad am eu barn ar y cynnig. O'r 102 o ymatebion unigol ddaeth i law, roedd 90 (88%) o blaid y cynnig, 11 (11%) yn erbyn y cynnig, a doedd gan 1 (1%) unrhyw farn y naill ffordd na'r llall. Cyhoeddwyd yr ymatebion yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad.

Ar 8 Chwefror 2021, ar ôl ystyried yr adroddiad ymgynghori, penderfynodd y Cabinet fwrw ymlaen â'r cynnig drwy gyhoeddi hysbysiad statudol. Cyhoeddwyd yr hysbysiad statudol ar wefan y Cyngor ar 22 Chwefror 2021 a'i ddisbarthu i ymgynghoriad rhagnodedig. Cafodd hefyd ei arddangos ym mhrif fynedfeydd Ysgol y Deri. Mae Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn sicrhau bod cyfle i unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu cynnig trefniadaeth ysgolion wneud hyn. Er mwyn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol, mae'n rhaid i wrthwynebiadau gael eu gwneud yn ysgrifenedig neu drwy e-bost, a'u hanfon i'r cynigiwr cyn pen cyfnod 28 diwrnod gan ddechrau o'r diwrnod pan gyhoeddwyd yr hysbysiad ("y cyfnod gwrthwynebu"). Gan fod yr hysbysiad statudol wedi'i gyhoeddi ar 8 Chwefror 2021, roedd rhaid derbyn gwrthwynebiadau statudol erbyn 22 Mawrth 2021. Derbyniwyd dau wrthwynebiad statudol ystod y cyfnod rhybudd statudol.

Ar 26 Ebrill 2021, ystyriodd Cabinet Cyngor Bro Morgannwg yr adroddiad gwrthwynebiadau a'r holl ddogfennau perthnasol eraill a phenderfynodd gymeradwyo'r cynnig. Mae'r adroddiad gwrthwynebiadau ar gael i'w weld a'i lawrlwytho ar wefan y Cyngor:
www.valeofglamorgan.gov.uk/ysgolyderiexpansion

Mae copïau caled o'r adroddiad gwrthwynebiadau ar gael ar gais drwy gysylltu ag aelod o'r Tîm Ysgolion yr 21ain Ganrif ar: 21stcenturyschools@valeofglamorgan.gov.uk

Bydd y cynnig yn golygu y bydd darpariaeth addysgol arbenigol yn Ysgol y Deri yn cael ei chynyddu i ddarparu ar gyfer 150 o ddisgyblion ychwanegol. Er mwyn darparu ar gyfer y capasiti cynyddol hwn, bydd adeilad ysgol newydd yn cael ei adeiladu ar safle newydd, a fydd yn gweithredu o dan reolaeth Ysgol y Deri.

Mae'r Cyngor wedi nodi safle a ffefrir sydd wedi'i leoli wrth ymyl datblygiad arfaethedig 'Tir ar Fferm Cosmeston Uchaf, Larnog' sydd wedi'i ddyrannu fel rhan o Gynllun Datblygu Lleol (CDLI) mabwysiedig y Cyngor 2011-26. Mae'r ardal hon yn darparu digon o le i godi adeilad newydd arfaethedig yr ysgol ac mae tua 3 milltir o safle presennol Ysgol y Deri. Bydd adeilad newydd yr ysgol yn addysgu disgyblion oedran cynradd yn bennaf. Fodd bynnag, bydd yr ysgol yn gweithredu dull sy'n seiliedig ar anghenion i bennu rhaniad disgyblion ar draws y ddau safle. Bydd hyn yn lleihau'r angen i ddyblygu'r holl gyfleusterau sydd ar gael ar hyn o bryd yn Ysgol y Deri.

Wrth benderfynu ar y cynnig, roedd y Cabinet yn fodlon y bydd y cynnig yn:

- Sicrhau bod y Cyngor yn gallu ateb y galw a ragwelir am addysg arbennig ym Mro Morgannwg;
- Darparu amgylcheddau dysgu arloesol a chreadigol y gellir eu haddasu i newid ac sy'n diwallu anghenion ein dysgwyr mwyaf agored i niwed;
- Cynyddu gallu'r gymuned i ddefnyddio a rhyngweithio â'r ysgol drwy ddefnyddio cyfleusterau addysgol yr ysgol, gan fodloni anghenion yr ysgol ar yr un pryd.
- Cydnabyddir mai Ysgol y Deri yw'r sefydliad sydd â'r profiad a'r sgiliau i weithredu strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y ffordd fwyaf effeithiol o fewn ac ar draws yr Awdurdod Lleol (ALI). O'r herwydd, bydd ehangu Ysgol y Deri yn golygu bod rhai o'n dysgwyr mwyaf agored i niwed yn cael y cymorth a'r ddarpariaeth anogaeth fwyaf effeithiol fel elfennau allweddol o'u haddysg; a
- Bydd atal dibyniaeth yn y dyfodol ar ddarpariaeth gostus y tu allan i'r sir.

Mae'r rhesymau dros y penderfyniad mewn cysylltiad â'r ffactorau wedi'u hamlinellu yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion fel a ganlyn:

Ansawdd a Safonau Addysg

Bydd gan y cynnig hwn effaith gadarnhaol debygol ar ddarpariaeth a safonau addysg yn y Fro drwy roi cymorth arbenigol i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Bydd y cynnig yn sicrhau bod y Cyngor yn gallu bodloni ei ddyletswydd statudol i ddarparu nifer digonol o leoedd ysgol ac i fodloni anghenion rhai o'n dysgwyr mwyaf agored i niwed. Fel y nodwyd gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad, bydd y bwriad i ehangu Ysgol y Deri yn galluogi mwy o ddisgyblion i gael mynediad at addysg arbenigol a allai gael eu heithrio fel arall.

Bydd y cynnig yn arwain at amgylcheddau addysgu a dysgu priodol a fydd yn hyrwyddo lles disgyblion a'u hagweddau tuag at ddysgu. Mae'r adeilad newydd a'r safle ar gyfer ehangu Ysgol y Deri wedi'i ddylunio i fodloni anghenion ystod eang o ddisgyblion a bydd yn darparu mwy o fynediad at y cwricwlwm a gweithgareddau allgyrsiol

Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion

Mae'r cynnig yn ffurfio rhan o strategaeth y Cyngor i weddnewid addysg arbennig ym Mro Morgannwg er mwyn ateb y galw a ragwelir yn y dyfodol a bodloni anghenion ein dysgwyr mwyaf

agored i niwed orau.

Adeiladwyd Ysgol y Deri yn wreiddiol i gynni lle i 205 o ddisgyblion ond ar hyn o bryd mae ganddi 262 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae nifer y disgyblion sy'n gadael yr ysgol yn y tymor byr i ganolig yn llawer is na'r rhai sy'n dechrau sy'n achosi'r pwysau sylweddol ar gapasiti.

Yn 2018-19 roedd 18 o ymadawyr ysgol a 39 o ddisgyblion newydd, yn 2019-20, roedd 39 o ddisgyblion newydd a 25 o ymadawyr. Ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2019-20 dim ond 10 o bobl a oedd yn gadael a bu cynnydd sylweddol yn nifer yr ymgeiswyr i 48. Er mwyn darparu ar gyfer y niferoedd a dderbyniwyd ym mis Medi 2020, mae cyfleuster Seibiant Preswyl Tŷ Deri wedi'i gau dros dro ac mae ardaloedd cymunedol wedi'u trosi'n ystafell ddosbarth ychwanegol. Mae hyn wedi galluogi'r Cyngor i ddarparu lleoedd i'r rhai sydd angen lleoliadau eleni, ond mae'r holl le sydd ar gael bellach wedi'i ddefnyddio ac ni fydd yr ysgol yn gallu ehangu ymhellach.

Yn 2021-22 nifer y rhai sy'n gadael ym mis Gorffennaf fydd 18. Mae'n amhosibl rhoi nifer penodol o ddisgyblion y bydd angen lleoedd arnynt ar gyfer mis Medi 2021 gan y bydd hyn yn dibynnu ar sawl ffactor. Fodd bynnag, mae'r amcanestyniadau presennol yn dangos y bydd angen o leiaf 44 o leoedd. O ganlyniad, mae'n amlwg y bydd angen o leiaf 26 o leoedd ychwanegol i greu'r capasiti ar gyfer derbyn mis Medi 2021. Yn 2022-23 bydd 26 o bobl yn gadael a byddai'r amcanestyniadau presennol yn dangos y bydd nifer y disgyblion sydd angen lleoliad unwaith eto yng nghanol y deugain. Byddai hyn yn golygu y bydd angen tua 18 o leoedd ychwanegol ym mis Medi 2022. Bydd angen cyfanswm o tua 44 o leoedd ychwanegol yn Ysgol y Deri cyn cwblhau'r adeilad newydd. Fodd bynnag, nodwch mai isafswm a ragwelir yw hwn, ac nid yw'n rhoi cyfrif am deuluoedd sy'n symud i'r Fro gyda phlant ag anghenion cymhleth, er enghraifft. Mae'r duedd hon yn gyson ag Awdurdodau Lleol eraill ac mae'n debygol o barhau hyd y gellir rhagweld.

Bydd y cynnig yn golygu y bydd darpariaeth addysgol arbenigol yn Ysgol y Deri yn cael ei chynyddu i ddarparu ar gyfer 150 o ddisgyblion ychwanegol.

Mae'r Cyngor yn cynnig dull cyfannol o ateb y galw yn y dyfodol drwy ddarparu capasiti ychwanegol yn Ysgol y Deri, yn ogystal â chanolfannau adnoddau arbenigol ychwanegol mewn ysgolion prif ffrwd ledled y Fro i gefnogi dysgwyr a fyddai'n eu gwasanaethu'n well drwy gael mynediad at addysg brif ffrwd gyda mwy o gymorth. Byddai'r dull hwn yn sicrhau bod y Cyngor yn gallu ateb y galw wrth gynnig ystod o ddarpariaeth i ddiwallu anghenion unigol ein dysgwyr orau.

Adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill

Gwneir buddsoddiad cyfalaf sylweddol i godi adeilad newydd ar gyfer Ysgol y Deri ar safle arfaethedig Cosmeston. Bydd y Cyngor yn gyfrifol am reoli'r gwaith o adeiladu'r adeilad newydd fel rhan o Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Amcangyfrifir mai cyfanswm yr arian cyfalaf sydd ei angen i adeiladu ysgol newydd fyddai £11.8 miliwn. Disgwylir y bydd y Cyngor yn cael £8.85 miliwn (75%) o gyllid Llywodraeth Cymru drwy Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, yn amodol ar gymeradwyo achos busnes. Mae cyfraniad y Cyngor gwerth £2.95 miliwn wedi'i gynnwys fel rhan o'r rhaglen gyfalaf.

Dyfarwyd pwysau cost fel rhan o broses y gyllideb refeniw ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22 i ariannu'r cynnydd refeniw sydd ei angen i letya'r disgyblion ychwanegol yn Ysgol y Deri. Y twf refeniw a ddyfarnwyd ar gyfer 2021/22 yw £843,000. Cyflwynwyd pwysau cost pellach ar gyfer blynyddoedd ariannol 2022/23 a 2023/24 o £639,000 a £224,000 i dalu costau'r twf amcangyfrifedig yn nifer y disgyblion. Byddai hyn er mwyn darparu ar gyfer cynnydd net o 26 o ddisgyblion ym mis Medi 2021 a chynnydd net pellach o 18 disgybl ym mis Medi 2022.

Bydd y cynigion yn sicrhau y bydd adeiladau newydd yn bodloni safonau adeiladu modern i leihau

allyriadau carbon, bodloni safonau Rhagoriaeth BREEAM, ac yn cyflawni'r radd uchaf o A ar gyfer y Dystysgrif Perfformiad Ynni (TPY).

Corff llywodraethu Ysgol y Deri fydd yn gyfrifol am ddatblygu strwythur staffio i gefnogi'r ddarpariaeth safle rhanedig. Byddai unrhyw newidiadau arfaethedig i staffio yn destun ymgynghoriad llawn â staff a'r undebau llafur perthnasol lle bo angen.

Ffactorau cyffredinol eraill

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn nodi y byddai effaith gadarnhaol ar bobl â'r nodweddion a ddiogelir o ran oedran, anabledd ac ailbennu/hunaniaeth rhywedd. Bydd y cynnig yn cefnogi'r ysgol i sicrhau bod ganddi gyfleusterau gwell i hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthnasoedd da rhwng y rhai â nodweddion a ddiogelir gwahanol.

Nid ymddengys y bu effaith negyddol ar y nodweddion gwarchoddedig a nodwyd.

Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

Mae'r asesiad effaith ar y gymuned yn nodi y bydd y cynnig yn debygol o gael effaith cadarnhaol ar y gymuned leol mewn 6 o'r 8 mesur a aseswyd. Bydd y cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol mewn 2 o'r 8 mesur a aseswyd.

Bydd y cynnig yn gwneud yn bosib ehangu Ysgol y Deri i ddarparu amgylchedd dysgu arloesol a chreadigol y mae modd eu haddasu i newid a byddai'n herio ac yn cefnogi plant i gyflawni eu llawn botensial. Bydd y cynnig yn cynyddu lefel y mynediad cymunedol a'r rhyngweithio drwy ddefnyddio cyfleusterau addysg yr ysgol wrth ddiwallu anghenion cymhleth y disgyblion.

Bydd angen ystyried goblygiadau trafndiaeth yn ofalus wrth ddylunio'r ysgol newydd i gyfyngu ar effaith y cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n teithio i'r safle.

Yn gyffredinol, bydd y cynnig yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y gymuned leol.

Yn gywir,



Paula Ham, Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau